# PROSBECTWS YSGOL

# 2024-2025

**CYNNWYS**


1. **Cyffredinol**
2. **Ethos a Gwerthoedd yr Ysgol**
3. **Mynediad**
4. **Trefniadau Ymarferol**
5. **Lles yn yr Ysgol**
6. **Cysylltiadau gyda'r gymuned**
7. **Polisïau Cyffredinol**
8. **Gwyliau Ysgol**
9. **Datganiad Preifatrwydd**

**YSGOL SANTES HELEN**

# 1. Cyffredinol

## 1.1 Strwythur Rheoli

| | |
|---|---|
| PENNAETH: | Mrs Eirian Bradley-Roberts B.A., M.Ed. |
| Cadeirydd y Llywodraethwyr: | Mr Antonio Dos Remedios |
| Offeiriad y Plwyf: | I'w gadarnhau |

Ysgol Santes Helen
Twtil
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1PS

Rhif ffôn: Caernarfon (01286) 674856

E.bost. Eirian.Bradley-Roberts@santeshelen.ysgolion**gwynedd.cymru**

Er bod y manylion a geir yn y ddogfen hon yn gywir ar adeg cyhoeddi, ni ddylid cymryd yn ganiataol na fydd newidiadau a fydd yn effeithio ar y trefniadau perthnasol cyn dechrau neu yn ystod y flwyddyn ysgol neu yn y blynyddoedd nesaf.

## 1.2 Yr Ysgol

Mae Ysgol Santes Helen yn Ysgol Gynradd Gatholig dan Reolaeth Wirfoddol. Caiff yr ysgol ei chynnal yn llawn gan yr Awdurdod Addysg Lleol, Cyngor Gwynedd, yn unol â Deddf Addysg 1944.

Ysgol Santes Helen yw'r unig ysgol Gatholig yng Nghymru ble mae'r Gymraeg yw prif gyfrwng yr addysg, mae hyn yn adlewyrchu ein sefyllfa yng nghanol gymuned sydd a'r Gymraeg fel prif iaith. Rydym yn darparu ar gyfer plant Catholig, llawer ohonynt wedi symud i'r ardal o bedwar ban byd, ac yn ceisio rhoi seiliau iddynt yn nysgeidiaeth Crist tra'n eu hintegreiddio i'r gymuned maent yn byw ynddi. Darparwn addysg ar gyfer plant o oed meithrin hyd un mlynedd ar ddeg ac 'rydym yn derbyn plant nad ydynt yn Gatholigion sydd â rhieni sydd am iddynt dderbyn addysg Cristnogol.

**1.3 Corff Llywodraethol Ysgol Santes Helen**

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | Mr Antonio Dos Remedios |
| Is-Gadeirydd | Cynghorydd Maria Sarnacki |
| Clerc | Mrs Brenda Parry |

**Llywodraethwyr Sylfaen**

| | |
|---|---|
| Mr Antonio dos Remedios | Mr Patrick Coyne |
| Mrs Julie Andrews | Ms K.Jugas |

| | | |
|---|---|---|
| Pennaeth | - | Mrs Eirian Bradley-Roberts. |
| Cynrychioli'r Rhieni | - | Mrs Julie Horan |
| Cynrychioli'r Athrawon | - | Miss Sian Jones |

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Awdurdod Lleol- | Cynghorydd Maria Sarnacki |
| Aelod o'r gymuned | Mrs Sian Thomas |
| Staff Ategol - | Mrs Sharon Thomas |

**Llywodraethwr dynodedig sy'n gyfrifol am amddiffyn plant-Julie Andrews, Swyddog Amddiffyn Plant dynodedig yr ysgol yw'r Pennaeth Mrs Eirian Bradley-Roberts.Mae'r ysgol yn gweithredu gofynion statudol mewn perthynas ag Amddiffyn Plant. Bydd yr ysgol yn cyfeirio achosion at y Gwasanaethau Cymdeithasol / Heddlu lle bo angen ac ar y cyd â Pholisi Amddiffyn Plant yr ysgol.**

**1.4 Awdurdod Addysg Gwynedd**

Adran Addysg a Diwylliant
Swyddfeydd y Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

**Cyfarfodydd** Mae'r corff Llywodraethol llawn yn cwrdd o leiaf dwy waith y tymor.

## 2. Ethos a Gwerthoedd yr Ysgol

### 2.1 Datganiad o Fwriad

### 2.1 Datganiad o Fwriad

Ein nod yw creu cymuned Gristnogol ofalgar, gyda'r plentyn yn ganolog, ble mae pob plentyn yn teimlo y caiff ei werthfawrogi, yn hyderus ac yn ddiogel. Ochr yn ochr â datblygiad academaidd, diwylliannol a chorfforol pob plentyn, bydd datblygiad o ran cyd-rannu a gofalu am eraill yn ogystal â thwf o ran ymwybyddiaeth ysbrydol.

Ein nod yw annog yr ethos hwn o ymddiriedaeth, didwylledd a pharch, a pherthnasoedd cariadus rhwng y plant a holl aelodau cymuned yr ysgol. Fel hyn, byddwn yn adlewyrchu gorchymyn yr Iesu :

**"Car dy gymydog" : Ioan 13:34**

***Ein amcanion***

'Rydym wedi mabwysiadu'r amcanion canlynol yn ein dysgu er mwyn sicrhau datblygiad ysbrydol a moesol yn y plant.

- *rhoi cyfleoedd gwirioneddol ar gyfer gweddi, litwrgi ac addoli i bob plentyn er mwyn iddynt gyfrannu tuag at ddatblygiad y ffydd yn yr ysgol.*
- *sefydlu cyswllt hanfodol rhwng y cartref, y plwyf a'r ysgol er mwyn paratoi tuag at fywyd fel bod y plant yn gallu datblygu'n aelodau cyfrifol a chydwybodol o'r gymdeithas.*
- *rhoi addysg o'r safon uchaf posibl sy'n adlewyrchu gofynion yr awdurdod addysg, llywodraeth y cynulliad yn ogystal â chymdeithas yn gyffredinol.*
- *galluogi pob plentyn fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg fel eu bod yn gallu cyfranogi a chymryd rhan yn y gymdeithas ddwyieithog.*
- *sicrhau cyfle cyfartal a mynediad at gwricwlwm sy'n gytbwys, perthnasol a chyfoethog.*
- *mabwysiadu ym mhob un o'r plant yr wybodaeth, agweddau a sgiliau sydd am eu galluogi i fyw bywydau fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.*

## 3. Mynediad

### 3.1 Polisi Mynediad

Rhydd yr ysgol fynediad i ddisgyblion newydd unwaith y flwyddyn yn unig, ym mis Medi, ac yn unol â pholisi Pwyllgor Addysg Gwynedd h.y.

i. rhan amser o fis Medi yn dilyn ei benblwydd ef/hi yn dair oed
ii. llawn amser o fis Medi yn dilyn ei benblwydd ef/hi yn bedair oed.

Yn ystod tymor yr haf, gwahoddir rhieni disgyblion newydd i ddod a'u plant i'r ysgol i dreulio prynhawn yn y dosbarth derbyn er mwyn annog eu plant i ymgartrefu'n gyflym ar ddechrau eu gyrfa ysgol. Yn ystod y prynhawniau hynny, caiff rhieni wahoddiad i gwrdd â'r Pennaeth, staff a chwrdd â rhieni newydd eraill er mwyn trafod y trefniadau ymarferol ar gyfer dechrau yn yr ysgol ac unrhyw wybodaeth bwysig arall er mwyn cynorthwyo'r plant i ymgartrefu yn yr ysgol.

Caiff rhieni wahoddiad i fynychu Noson Agored bob tymor i drafod cynnydd eu plant a gweld peth o waith y tymor.

Os oes gan rieni unrhyw ymholiad neu bryder difrifol ynghylch eu plentyn neu yr ysgol, ar unrhyw adeg, dylent, yn y lle cyntaf, gysylltu â'r Pennaeth i drafod y mater , cyn gynted a bo modd.

Er mwyn sicrhau bod y plant yn derbyn addysg "gyflawn" dda, byddai'r Pennaeth a holl aelodau'r staff yn falch o weld rhieni i drafod unrhyw fater sy'n ymwneud â'u plant neu â bywyd yr ysgol. Y ffordd orau o wneud hynny, os oes modd, yw trwy drefnu amser trwy gysylltu ag Ysgrifenyddes yr Ysgol.

Croesawn a derbynnir plant sy'n Gatholig **ac nad ydynt** yn Gatholig yn yr ysgol.

### 3.2 Dalgylch

Plwyf Eglwys Gatholig Santes Helen a Dewi Sant yw dalgylch yr ysgol.

### 3.3 Meini Prawf ar gyfer Mynediad

Pennir pob mynediad gan Fwrdd y Llywodraethwyr Rhoddodd y Bwrdd yr hawl i'r Pennaeth roi mynediad i blant sy'n Gatholigion ond mae'r Bwrdd yn cadw'r hawl i benderfynu ar blant nad ydynt yn Gatholigion.

### 3.4 Apeliadau yn erbyn Penderfyniad y Llywodraethwyr

Yn unol â Deddf Addysg 1980, gall rhiant apelio yn erbyn penderfyniad y Llywodraethwyr. Dylid cyflwyno apeliadau o'r fath i Ysgrifennydd y Bwrdd Apeliadau

d/o Pennaeth yr Ysgol
neu d/o Y Presbytri
neu d/o Y Cyfarwyddwr Addysg

## 4. Trefniadau Ymarferol

### 4.1 Y Diwrnod Ysgol

| | | |
|---|---|---|
| Sesiwn bore | Meithrin | 9.00 y.b- 11 00 y.b |
| | Cyfnod Sylfaen | 9.00 y.b- 12-00 |
| | Iau | 9.00 y.b. - 12.00 |
| Sesiwn Prynhawn | Cyfnod Sylfaen | 1.00 y.p- 3.00 y.p |
| | Iau | 1.00 y.p. - 3.30 y.p. |

Disgwylir i blant fynychu'n rheolaidd a bod yn brydlon. Gofynnir i rieni hysbysu'r ysgol yn ysgrifenedig o'r rhesymau dros unrhyw absenoldeb. Dechreuir yr ysgol am 9.00 y.b a'r drysau yn cael eu hagor am 8.50. Mae aelodau o staff wrth y giât i groesawu'r plant. Mae plant yn mynd i mewn trwy'r drws ffrynt. Os bydd plant yn cyrraedd cyn 8.50 a.m. dylai rhieni nodi nad oes goruchwyliaeth i'r plant yr adeg hynny ar yr iard. Os yw rhieni eisiau gofal plant cyn yr amser hwn yna gallant gofrestru ar-lein i'w plant fynychu'r clwb brecwast.. Dilynwch y linc yma er mwyn cofrestru am y clwb brecwast.
Ar ddiwedd y dydd dylai pob disgybl fod oddi ar y safle erbyn 3.40 oni bai bod rhyw weithgaredd allgyrsiol yn cael ei drefnu.

### 4.2 Cyfleusterau yn yr Ysgol

Ceir pedair ystafell ddosbarth a neuadd o faint sylweddol yn yr ysgol. Yn ogystal ag fel man bwyta, defnyddir y neuadd ar gyfer cynnal gwasanaethau boreol, A.G, drama a dawns, gweithgareddau cerddorol a chyngherddau.

### 4.3 Man Chwarae

Cae chwarae craidd caled a chae chwarae wedi ei amgylchynu â ffens dur uchel yw hwn.

### 4.4 Cyfraniadau gan Rieni

Mae'r Corff Llywodraethol wedi cadarnhau polisi ar gyfer cyfraniad gan rieni. Prif rwymedigaeth y polisi yw y gofynnir yn garedig i rieni gyfrannu'n ariannol tuag at gost llogi cludiant i gludo plant ar ymweliadau addysgol ac i dalu am wersi offerynnol. Mae 'Cyfeillion yr Ysgol' hefyd yn rhoi cymhorthdal tuag at y gweithgareddau hynny.

### 4.5 Y Cwricwlwm

Swyddogaeth yr ysgol yw meithrin ac annog datblygiad y plentyn fel unigolyn ac fel aelod o gymdeithas.

Fel unigolyn, rhaid annog twf corfforol, meddyliol a moesol a rhoi cyfle i'r plentyn ddatblygu'n llawn. Mae plentyn hefyd yn aelod o'r gymdeithas a rhaid iddo fod yn barod i chwarae rhan lawn yn y gymdeithas honno.

Mae'r ysgol yn gweithredu gofynion y Cwricwlwm i Gymru. Ar hyn o bryd, mae'r dosbarthiadau wedi eu trefnu fel a ganlyn :-

| MATH O DDOSBARTH | BLWYDDYN | OEDRAN Y PLANT | ATHRAWES CYMHORTHYDD |
|---|---|---|---|
| Cyfnod Sylfaen - Dosbarth plant o dan 7. | Meithrin Bl 2, | 3-7 oed | Mrs E.Bradley-Roberts*<br>Mrs S.Thomas<br>Ms W.Jones<br>Miss D. Hardington |
| Adran Iau- Dosbarth plant dros 7. | Bl 3-6 | 7-11 oed | Miss S. Jones*<br>Mrs Sharon Thomas |

* Athrawon

Ein nod yw ceisio sicrhau bod y plentyn, erbyn mae'n unarddeg oed, yn gallu mynegi ei hun yn rhugl ar lafar ac yn gallu darllen ac ysgrifennu yn y ddwy iaith, yn blentyn sy'n ymwybodol o'r byd o'i amgylch ac sydd, yn ystod ei yrfa ysgol, wedi cael pob cyfle i ddatblygu'n llawn yn unol â'i oedran, gallu a thueddfryd.

Dosbarth plant dan 7- Addysgir plant yn bennaf mewn grwpiau o fewn eu dosbarth ac yn yr awyr agored.
Dosbarth plant dros 7- Ar y lefel hon addysgir plant trwy gyfuniad o ddosbarth cyfan, grwpiau bach ac addysgu unigol.

**4.6 Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae Ysgol Santes Helen wedi mabwysiadu polisi ysgol gyfan er mwyn hwyluso mynediad llawn at gwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer pob plentyn yn seiliedig ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ac ar y Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig.

Ceir strategaeth ysgol gyfan o adnabod plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac rydym hefyd yn annog mewnbwn rhieni ym mhob trafodaeth am eu plentyn.

Miss Sian Jones yw'r Cyd-gysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae lefel y cymorth ychwanegol ar gyfer y plant sydd ar y Gofrestr ADY yn amrywio'n ôl anghenion y plentyn. Caiff rhai plant sydd ar y gofrestr ADY gymorth gan yr ysgol o fewn grŵp ymyrraeth. Derbyniant sesiynau ychwanegol mewn darllen neu sillafu wedi ei arwain gan gymhorthydd. Bydd eraill ar y gofrestr ADY yn cael mewnbwn ar ffurf adnoddau neu strategaethau ymyrraeth gan gymhorthydd neu athro arbenigol o'r tu allan i'r ysgol. Bydd plant ag anghenion dwys naill ai'n derbyn cymorth gan athro arbenigol neu yn cael cymorth gan gymhorthydd ADY. Gyda phlant dawnus iawn, mae'r athro dosbarth mewn ymgynghoriad â'r arweinyddion cwricwlwm, yn paratoi gwaith addas.

Mae ein polisi ADY cyfredol ar gael yn yr ysgol.

## 4.7 Disgyblion Anabl

Byddai'r ysgol yn cynorthwyo unrhyw blentyn anabl i gael profiad o fywyd ysgol heb fawr ddim trafferth. Gwneid pob ymdrech i sicrhau bod y plentyn yn aelod sydd wedi llawn integreiddio i fywyd yr ysgol. Mae ysgol a ddynodwyd yn benodol (Ysgol yr Hendre) o fewn y dalgylch sydd wedi'i haddasu ar gyfer plant mewn cadair olwyn. Fodd bynnag mae gan Ysgol Santes Helen gynllun mynediad sy'n amlinellu'r newidiadau angenrheidiol i wireddu mynediad i bawb. Pan fydd cyllidebau'n caniatáu, a phan fydd yn ymarferol, gweithredir y newidiadau hyn yn raddol. Ymgynghorwyd gyda swyddog mynediad yr adran addysg wrth lunio'r cynllun. Mae copi ar gael yn yr ysgol.

## 4.8 Cyfleoedd Cyfartal

Ceisiwn sicrhau y caiff pob disgybl fynediad cyfartal at y cwricwlwm cyfan ac at yr holl wasanaethau a'r cyfleusterau yn yr ysgol. Mae polisi sy'n amlinellu'r mynediad cyfartal hwn ar gael yn yr ysgol.

## 4.9 Gofal Bugeiliol a Disgyblaeth

Mae'r holl staff yn gyfrifol am ofalu am y plant, ond gosodir pob plentyn dan ofal athrawes dosbarth benodol. Mae'r ysgol yn annog hunan-ddisgyblaeth a hunan-barch a cheisir sicrhau cefnogaeth rhieni yn hyn o beth. Mae dau gyfarfod pob blwyddyn pryd y gwahoddir rhieni i'r ysgol i drafod cynnydd eu plentyn.

Mae croeso i rieni bob amser a chânt eu hannog i ymweld â threulio amser yn yr ysgol a gosod esiampl i'w plant trwy gynnig eu gwasanaethau i'r ysgol mewn gwahanol ffyrdd. Mae gennym C.Rh.A. yn dwyn yr enw "Cyfeillion yr Ysgol", sy'n cynnwys rhieni disgyblion sy'n mynychu'r ysgol.

## 4.10 Amser Ymweld

Mae croeso i chi alw yn yr ysgol unrhyw bryd ond os oes modd, gwnewch drefniadau i weld y Pennaeth, Mrs. Bradley-Roberts gan ei bod yn bennaeth sy'n dysgu.

## 4.11 Cwynion ynghylch y Cwricwlwm

Dylai'r rhieni gysylltu â'r Pennaeth yn y lle cyntaf. Gwneir pob ymdrech i ddelio ag unrhyw gŵyn mewn ffordd deg. Ceir polisi cwynion yn yr ysgol ac ar y wefan sy'n seiliedig ar ganllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r ysgol yn dilyn y gweithdrefnau a argymhellir.

## 4.12 Addysg Rhyw

Mae'r ysgol wedi prynu rhaglen Cwmni Ten Ten – Life to the full. Mae'r rhaglen yma wedi chael ei chymeradwyo gan yr Esgobion Catholig ac fe'i defnyddir i gyflwyno'r gofynion Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd.

**4.13 Addysg Grefyddol**

Ceisiwn fod yn wir gymuned Gristnogol lle mae'r Ffydd Gatholig yn cael ei dysgu a'i byw, a phwyslais mawr ar gydweithio agos rhwng rhieni, athrawon ac offeiriaid. Cyhoeddwyd cyfeiriadur Addysg Grefyddol newydd yn 2023 a defnyddiwyd hwn yn unol â pholisi'r Esgobaeth. Mae pob dosbarth yn cymryd eu tro i helpu gyda'r gwasanaethau

**4.14 Offeren**

Cynhelir offerennau yn yr ysgol neu'r Eglwys pan fydd offeiriad ar gael. Mae'r plant yn cymryd rhan yn yr Offeren trwy ddarllen o'r litwrgi, gweddïo, mynd â'r orymdaith offrwm at yr allor a chanu emynau.

**4.15 Cyffes**

Anogir rhieni y plant Catholic, sydd wedi gwneud eu Cymun Cyntaf i wneud eu trefniadau personol i sicrhau bod eu plant yn mynychu'r gyffes, yn arbennig yn ystod Adfent a'r Grawys.

**4.16 Cymun Cyntaf**

Yn flynyddol, mae plant Catholig o Blwyddyn tri yn gwneud eu Cymun Cyntaf, a'u Gyffes gyntaf. Mae Mrs Eirian Bradley Roberts yn paratoi'r plant ar gyfer yr achlysur.

Caiff cyfarfodydd eu trefnu gyda'r rhieni cyn i'r plant dderbyn eu Cymun Bendigaid cyntaf.

**4.17 Ffordd y Groes**

Yn ystod y Grawys, aiff yr athrawon a'r plant i'r Eglwys i ddilyn Ffordd y Groes.

**4.18 Gweithgareddau All-gwricwlaidd**

Mae nifer o Weithgareddau Cwricwlaidd ychwanegol yn digwydd ar ôl ysgol, o 3.30 ymlaen e.e. pêl-droed, a Kick It. Mae amser clwb yr Urdd bellach wedi ei symud i sesiwn amser cinio. Mae'r ysgol yn annog plant i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd - Eisteddfod, gwersyll haf a mabolgampau. Cynhelir sawl gwibdaith addysgol a diwylliannol yn ystod y flwyddyn ysgol.

**4.19 Gwersi offerynnol**

Mae yna cynnig i blant o Bl.3 ymlaen gael gwersi offerynnol am bris gostyngol o £40 y tymor. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis dysgu canu'r piano neu'r gitâr ond gall yr ysgol geisio trefnu i blant gael gwersi ar offeryn o'u dewis os oes athro/athrawes ar gael.

**4.20 Gweithgareddau Mabolgampau a Gweithgareddau Diwylliannol**

Cymer plant ran yn y gweithgareddau canlynol.

1. Cystadlaethau'r Urdd e.e. Cerddoriaeth Greadigol, Parti Canu.
2. Cystadlaethau pêl-droed a rygbi 7 bob ochr gydag ysgolion lleol yn cymryd rhan.
3. Cystadlaethau pêl-rwyd.

4. Gala nofio gyda gwahanol ysgolion yn cymryd rhan.
5. Cystadlaethau mabolgampau'r Urdd.
6. Cystadlaethau mabolgampau Ysgol a Diwrnod Chwaraeon Ysgolion Catholig.
7. Gwersi gitar a phiano.

### 4.21 Cylch Meithrin Twtil

Mae grŵp meithrin cyn ysgol (Cylch Meithrin) sydd wedi symud ei safle i'r ysgol yn ddiweddar. Gall plant o'r dosbarth meithrin yn yr ysgol hefyd fynychu'r clwb cinio am 11.00 ac yna aros tan 3 y prynhawn. Mae ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor.

**Clwb cinio.** **11.00-12.30 yp**
**Sesiynau meithrin** **12.30-3.00 yp**

Mae'r Cylch Meithrin wedi'i gofrestru gyda'r "Mudiad Ysgolion Meithrin" ac AGGCC a gall gymryd hyd at 7 o blant y sesiwn o 2 oed ar hyn o bryd. Mae cynlluniau i symud y grŵp i ystafell fwy ac fe fyddan nhw wedyn yn gallu darparu ar gyfer nifer fwy o blant.
Dyma'r manylion cyswllt.

**Ebost: cylchmeithrintwtil@gmail.com**

**Ffôn: 07587537609**

### 4.22 Clwb Brecwast

Mae gan yr ysgol glwb brecwast sydd ar agor yn ystod y tymor. Mae manylion y clwb brecwast fel a ganlyn

**8.00-8.25- £1.00 y sesiwn**

**8.25-8.45- Am ddim**

Atgoffir rhieni yn garedig o'r angen i gofrestru eu plentyn cyn mynychu'r naill sesiwn neu'r llall ar ap Schoolcomms. Dyma'r linc ar gyfer cofrestru a'r clwb brecwast.

### 4.23 Clwb ar ôl Ysgol

Mae clwb ar ôl ysgol i blant rhwng **3.00 a 5.00** yp sydd ar agor i bob plentyn. Staff yr ysgol sy'n rhedeg y clwb. Mae'r clwb yn codi **£ 5.00 yr awr.**

### 4.24 Cronfa Adeiladu'r Ysgol

Gan bod yr ysgol yn Ysgol Gatholig wirfoddol dan gymorth, nid yw'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am waith adeiladu i du allan yr ysgol. Mae'r Esgobaeth yn derbyn grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru ac mae'r ysgol, fel sy'n berthnasol i'r ysgolion Catholig eraill, yn gorfod cyflwyno cais am arian ar gyfer cyflawni gwaith trwsio a gwaith cynnal a chadw. Mae'r grant yn talu 85% o gostau'r gwaith sy'n cael sêl bendith. Rhaid i'r 15% sy'n weddill gael ei dalu gan yr ysgol. Mae canran o'r pres yma'n dod o'r pres sydd yn cael ei gasglu gan Cyfeillion yr Ysgol.

**4.25 Gwisg Ysgol**

Mae gan yr ysgol hon wisg ysgol newydd ers 2018, ac er nad yw plant yn cael eu gorfodi i wisgo'r wisg credwn fod gwneud hynny yn cynnal balchder yn yr ysgol a'r teimlad o fod yn berthn iddi. Mae'r wisg fel a ganlyn: -

**MERCHED**

Sgert ddu neu Pinafore. Crys t porffor.

Cardigan neu grys chwys lliw gwyrdd (‘jade’).

Trowsus du.

**Gwisg Haf**

Ffrog gingham siec fach borffor a gwyn.

Trowsus byr du.

**BECHGYN**

Trowsus du. Crys t porffor.

Crys chwys Jade.

**Gwisg Haf**

Trowsus du byr.

**Gwisg Ymarfer Corff**

Gofynnir hefyd i rieni gyflenwi gwisg Ymarfer corff i'r plant

Esgidiau - pymps neu hen trainers a hefyd siorts/trowsus rhedeg,, crys T a siaced os oes angen

**Gofynnir hefyd i rieni sicrhau bod enw pob plentyn wedi'i farcio'n glir ag enw pob plentyn gan fod nifer fawr o ddillad yn cael ei adael yn yr ysgol cyn yr Haf.**

## 5. Lles yn yr ysgol

### 5.1 Amser chwarae – Polisi ar Fwyta'n Iach

Caniateir i'r plant ddod a ffrwyth i'w fwyta yn ystod amseroedd chwarae. Rydym yn annog hyn er mwyn i'r plant bwyta bwyd iach.
Mae gan bob blant plentyn yn yr ysgol yr hawl i dderbyn llefrith yn rhad ac am ddim bob dydd.

### 5.2 Prydau Ysgol

Caiff y rhain eu goginio ar y safle a cheir cyfleusterau ar gyfer y plant hynny sy'n dod â chinio pecyn. Mae cinio am ddim ar gael i bob plentyn yn yr ysgol

### 5.3 Archwiliadau Meddygol

Yn ystod yr amser mae eich plentyn yn yr ysgol byddant yn cael eu gweld gan y Meddyg Ysgol am archwiliad meddygol llawn a byddwch yn cael llythyr I'ch hysbysu o'r amser. Gall yr ysgol gysylltu â nyrs yr ysgol Jackie i roi cyngor os oes pryderon am faterion iechyd plant gan rieni neu staff.

.

### 5.4 Salwch

Os digwydd i'ch plentyn gael ei daro'n wael neu gael damwain yn ystod oriau ysgol, mae'n hanfodol ein bod yn gallu cysylltu â chi ar unwaith. Mae arnom felly angen cael rhif ffôn cyfredol ac aelod o'r teulu/ffrind yn ogystal â rhif ffôn eich man gwaith, ar gyfer cofnodion yr ysgol.

Nid yw'r Awdurdod Addysg a'r Awdurdod Iechyd yn cymeradwyo rhoi moddion i ddisgyblion yn yr ysgol ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol. Os ydych yn dymuno i'ch plentyn gael moddion yn yr ysgol, mae angen cael llythyr gennych yn awdurdodi hynny.

### 5.5 Gadael yr ysgol yn ystod y dydd

Dim ond y plant hynny sy'n mynd adref i gael cinio sy'n cael caniatâd i adael tir yr ysgol. Mewn achosion o'r fath, rhaid i rieni'r plant o dan 7 eu casglu o'r dosbarth, ond caniateir i blant Bl 3-6 sy'n byw gerllaw'r ysgol, fynd ar eu pennau eu hunain os derbynnir caniatâd ysgrifenedig gan eu rhieni.

**Gwaherddir** disgyblion rhag gadael yr ysgol yn ystod y dydd oni roddir caniatâd.

### 5.6 Absenoldeb

1. Os yw plentyn yn absennol o'r ysgol, **mae'n rhaid** i'r rhiant anfon nodyn/e.bost neu'n ffonio'r ysgol i egluro pam bod y plentyn yn absennol. Os na hysbysir yr ysgol o'r rheswm dros absenoldeb plentyn bydd yr ysgol yn cysylltu â rhieni i ofyn am eglurhad. Gan bod cofrestri'r ysgol yn electronig ac yn cael eu monitro'n ganolog gan y Swyddfa Addysg, bydd y swyddog lles Addysg yn cysylltu â'r ysgol os nodir bod y plentyn yn absennol yn rheolaidd. Yn yr un modd, hysbysir y Swyddfa Addysg pan geir achosion parhaus ac/neu reolaidd o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr. Hysbysir pob rhiant yn ysgrifenedig o leiaf unwaith y flwyddyn ynghylch presenoldeb/absenoldeb eu plentyn/plant.

2. **Mewn achosion arbennig,** caniateir absenoldeb o bythefnos i ddisgyblion o fewn blwyddyn ysgol. Hefyd, disgwylir i rieni wneud pob ymdrech resymol i gymryd eu gwyliau ar yr un pryd a gwyliau'r ysgol, fel nad ydyw yn effeithio ar ddatblygiad addysgol eu plant.
3. Mewn achosion ble mae'n rhaid i rieni fynd a'u plant i glinigau deintyddol neu feddygol, caniateir i'r plant fynd allan o'r ysgol i fynychu'r apwyntiad. Mewn achosion o'r fath, gofynnir i rieni **beidio â chadw** plant gartref trwy'r dydd os oes modd osgoi hynny.
4. Os yw plentyn yn absennol oherwydd salwch am gyfnod maith, dylai'r rhieni gysylltu â'r ysgol i drefnu gosod gwaith cartref.
5. Rhaid i ddisgyblion sy'n cyrraedd yr ysgol yn hwyr, nodi bydd y gofrestr yn cael ei chau am 9.15 yn y bore ac am 1.15 yn y prynhawn.
6. Rhaid i ddisgyblion sy'n dymuno cael eu hesgusodi rhag cymryd rhan mewn A.G. /gemau/nofio, gyflwyno nodyn gan riant (dros dro) neu dystysgrif feddygol (dros gyfnod estynedig neu barhaol).

## 5.7 Meddygol

Disgwylir i rieni hysbysu'r ysgol o **unrhyw gyflwr meddygol neu glinigol** a all effeithio eu plentyn.

Bydd y wybodaeth hon yn gyfrinachol, ond disgwylir i bob aelod o staff yn yr ysgol fod yn ymwybodol o gyflwr iechyd y plentyn.
Os caiff disgybl ddamwain yn yr ysgol, bydd ef/hi yn cael eu trin gan unigolyn sydd ar ddyletswydd. Os yw disgybl wedi cael anaf difrifol, gwneir pob ymdrech i gysylltu â'r rhieni. Os nad yw'r ysgol yn gallu cysylltu â'r rhieni, yna bydd yn rhaid mynd a'r disgybl i'r ysbyty neu at y meddyg ac yna cysylltu â'r rhieni.

## 5.8 Polisi Disgyblu

Mae'r ysgol yn ymgynghori gyda phlant am gynnwys y polisi yn ystod y flwyddyn. Mae copi o'r polisi cyfredol ar wefan yr ysgol.

## 5.9 Gofalu am eiddo plant

Mae'r plentyn yn gyfrifol am ei eiddo personol ef/hi. Dylid labelu cotiau a dillad yn eglur fel bod y plant yn gallu adnabod eu gwisg.

Ni all yr ysgol gymryd cyfrifoldeb am unrhyw degan a ddaw'r plentyn gydag ef o adref. Ni ddylid gadael eiddo yn yr ysgol dros nos.

## 5.10 Rheolau'r Ysgol – Iechyd a Diogelwch

Ceisir sicrhau bod cyn lleied a bo modd o reolau yn cael eu gweithredu yn yr ysgol ac maent bob amser er lles cyffredinol y plant a'r ysgol gyfan.

1. Gwaherddir y plant rhag gadael tir yr ysgol yn ystod oriau ysgol.
2. Gwaherddir plant rhag dod â chynhwysydd gwydr i'r ysgol.
3. Dylid labelu enwau'r plant ar eu heiddo (cotiau, bagiau ayb).
4. Dylid cadw pob bocs cinio yn neuadd yr ysgol.
5. Ni ddylai disgyblion ddod â theganau i'r ysgol.

6. Caniateir i blant ddod a ffrwyth, caws neu iogwrt yn unig i'w bwyta yn ystod amser egwyl.

**5.11 Yfed dŵr**

Anogir y plant i yfed dŵr amser egwyl. Caniateir iddynt ddod â photel blastig i'r ysgol i'w llenwi â dŵr ond dylent nodi eu henw yn glir ar y botel.

**5.12 Ymweliadau tu allan i'r ysgol**

**Mae Corff Llywodraethol yr ysgol wedi mabwysiadu'r polisi a gaiff ei argymell gan yr AA ynghylch mynd a disgyblion allan o'r ysgol.**

Aiff yr athrawon a disgyblion ar ymweliadau lleol o fewn Caernarfon (eglwys, nofio, ymarferiadau a llyfrgell) ar ôl cael sêl bendith y Pennaeth, gan sicrhau bod cymhareb briodol o oedolion ar gyfer pob plentyn. Gofynnir i rieni arwyddo ffurflen holl-gynhwysol yn rhoi sêl bendith i'r ymweliadau hyn ar ddechrau pob blwyddyn ysgol.

Mae angen cael caniatâd rhieni ar gyfer unrhyw ymweliad sy'n cynnwys cludiant (taith ysgol, ymweliad â'r theatr ayb)

Mae angen cael caniatâd rhieni ar gyfer unrhyw arhosiad dros nos (Glanllyn ayb), yn ogystal â chytundeb y Corff Llywodraethol. Hysbysir yr AALL o ymweliadau o'r fath bob amser.

**5.13 Blasu Bwyd**

Mae dosbarthiadau weithiau yn gwneud gwaith sy'n cynnwys blasu bwyd e.e. ffrwyth, crempogau. Caiff ffurflen gynhwysfawr ei rhoi ar ddechrau'r flwyddyn yn gofyn am ganiatâd rhieni i blant flasu bwydydd.

**5.14 Diogelwch ar y ffordd:**

Rydym yn ymorol i sicrhau gall pob plentyn fynd i mewn a gadael yr ysgol yn ddiogel. **Gofynnir i rieni beidio â pharcio ar y <u>llinellau melyn igam ogam</u> tu allan i giatiau'r ysgol.**

**5.15 Polisi Dim Ysmygu**

Ceir Polisi "Dim Ysmygu" yn yr ysgol. Gofynnwn i bob rhiant gydweithredu trwy beidio ag ysmygu yn Adeilad neu ar Dir yr Ysgol.

## 6. Cysylltiadau gyda'r gymuned

### 6.1 Cyfeillion yr ysgol

Mae grŵp o rieni o'r enw Cyfeillion yr ysgol yn cyd wweithio gyda staff i drefnu digwyddiadau cymdeithasol a helpu i godi arian i'r ysgol. Mae croeso cynnes i bob rhiant fynychu'r cyfarfodydd a helpu gyda threfniadau.

### 6.2 Yr Eglwys

Ar wahân i Offerennau Plwyf mae'r ysgol yn cydweithio gyda'r eglwys ar brosiectau codi arian, sef boreau coffi i godi arian i Macmillan ac hefyd cyfrannu bocsys anrhegion Nadolig-Operation Christmas Child. Mae'r ysgol hefyd yn hysbysu'r Plwyf ynghylch unrhyw gyngherddau neu ddigwyddiadau cymuned sydd i'w cynnal ac mae'n ymwneud â hwy trwy lythyr newyddion y Plwyf.

### 6.3 Y Gymuned leol

Cymer yr ysgol ran mewn pob digwyddiad cymunedol a hyrwyddir gan y cyngor tref. Mae plant hefyd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a drefnir gan y grŵp Twtil lleol neu gapeli ac eglwysi lleol.

### 6.4 Mudiad yr Urdd

Mae cyfle i'r plant ymuno gyda'r Urdd ym mlwyddyn 3. Maent yn cystadlu mewn Eisteddfodau lleol a chenedlaethol, twrnamentiau a mabolgampau. Mae'r ysgol yn cynnal clwb ar gyfer aelodau bob pythefnos yn ystod amser cinio. Caiff plant ym mlwyddyn 5 a 6 gyfle i ymweld â dwy o'r ganolfannau a redir gan yr Urdd bob yn ail flwyddyn. Glanllyn sydd ar lannau llyn Bala a chanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd. Caiff rhieni wybodaeth ynghylch y misoedd hyn ymlaen llaw fel y gallent dalu mewn rhandaliadau.

### 6.5 Yr Ysgol Uwchradd

Rydym yn cydweithio'n agos â'r ysgol Uwchradd leol Syr Hugh Owen er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i blant ar ddiwedd blwyddyn 6. Mae plant yn ymweld a'r ysgol am un pnawn yn ystod tymor yr Hydref a rhieni plant Bl 5 a 6 yn cael eu gwahodd i noson agored. Yna, mae'r plant yn ymweld a'r ysgol am dridiau ym mis Mehefin i flasu gwersi. Mae pennaeth blwyddyn 7 hefyd yn ymweld i ateb unrhyw bryder a all fod gan blant. Caiff plant mae eu rhieni yn dewis ysgol tu allan i'r dalgylch yn cael amser i ffwrdd i ymweld ag ysgol o'u dewis.

### 6.6 Cylch Meithrin Twtil.

Mae plant cyn-ysgol yn "Cylch Meithrin Twtil" yn gyfarwydd â'r ysgol gan eu bod bellach wedi'u lleoli ar y safle. Ymunant â'r ysgol amser cinio yn y ffreutur trwy gael eu cinio ar yr un pryd â'r plant hŷn. Cânt fynediad llawn i dir yr ysgol ar gyfer gweithgareddau awyr agored. Fe'u gwahoddir hefyd i ymuno â'r ysgol ar gyfer digwyddiadau arbennig megis Plant Mewn Angen, cinio Nadolig a Mabolgampau. Gwahoddir plant Meithrin newydd hefyd i fynychu'r diwrnod blasu ym mis Mehefin.

### 6.7 Cysylltiadau Busnes.

Mae gan yr ysgol gysylltiad â busnesau lleol yn y dref. Mae'r plant yn cael ymweld a dau archfarchnad yn y dref yn rheolaidd i bwrpas Addysgol

## 7. Polisïau Cyffredinol

### 7.1 Polisi Iaith yr Ysgol

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn gweithredu polisi dwyieithog yn ei holl ysgolion.

Y nod yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr o fewn y sir i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog maent yn perthyn iddi.

Yn y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn, caiff disgyblion eu hannog gyda llawer o fedr a sensitifrwydd, i ddysgu Cymraeg a mynegi eu hunain yn fwy rhugl. Cymraeg yw'r prif iaith ar gyfer pob gweithgaredd yn y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1. Caiff pob plentyn eu hannog i wneud cynnydd yn ôl ei dueddfryd a'i allu ef neu hi. Yn Blwyddyn 2, caiff disgyblion eu cyflwyno i'r Saesneg yn ôl tueddfryd pob disgybl er cynhelir rhan fwyaf o weithgareddau'r dosbarth trwy gyfwng y Gymraeg. Rhwng blynyddoedd 3 a 6, dysgir Saesneg i'r disgyblion a chaiff gweithgareddau cwricwlaidd eu cyflwyno yn y ddwy iaith.

Caiff plant hŷn o gartrefi Seisnig sy'n symud i fyw i'r ardal eu hannog i fynychu'r uned Gymraeg arbennig sydd wedi ei lleoli yn ysgol Maesincla, am dymor. Cânt eu dysgu i siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg.

Gan mai trwy gyfrwng y Gymraeg y cynhelir bywyd cymdeithasol yr ysgol, ni ragwelir y caiff disgybl ei eithrio rhag dysgu Cymraeg o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol oni cheir amgylchiadau arbennig.

Bydd y Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'i staff ef/hi, yn paratoi ac yn adolygu'n rheolaidd ddogfen, sy'n datgan sut mae'r ysgol yn bwriadu gweithredu polisi iaith yr Awdurdod Addysg fel a amlinellir uchod.

### 7.2 Gwaith cartref

Rhoddir gwaith cartref i'r plant yn yr ysgol hon. Mae plant o ddosbarth Derbyn i fyny yn cael llythrennau ac wedyn llyfr darllen i'w ddarllen gartref. Y gobaith hefyd yw y bydd diddordeb y plant mewn themâu a phynciau penodol yn aml yn ymestyn i oriau ar ôl ysgol. Pan fydd hyn yn digwydd y gobaith yw y bydd y cartref yn cydweithredu i annog y plentyn yn ei waith.

Ym mlynyddoedd 3-6 weithiau rhoddir gweithgareddau achlysurol i blant ymarfer gartref ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn ysgol. O bryd i'w gilydd mae gweithgaredd penodol yn gofyn am wybodaeth gan rieni, perthnasau a chymdogion, neu'n gofyn am waith cyfweld ac ymchwil gan y plentyn. Gwerthfawrogir mai cyfrifoldeb y rhieni neu'r gwarcheidwaid yw'r plentyn yn ystod yr oriau hyn a bydd eu parodrwydd i gydweithredu yn cael ei ddeall yng ngoleuni'r cyfrifoldeb hwn.

Weithiau bydd athro penodol yn gofyn i blentyn wneud gwaith ychwanegol er mwyn goresgyn peth gwendid neu ganolbwyntio ar agwedd arbennig ar waith. Ar yr adeg honno, y gobaith yw y bydd cydweithrediad llawn y cartref ar ddod ynghyd ag anogaeth i'r plentyn wneud y gwaith.

## 7.3 Dogfennaeth

Mae gan rieni hawl i weld nifer o ddogfennau megis cylchlythyrau Llywodraeth Cymru, polisïau'r Awdurdod Addysg Lleol, polisïau ac amcanion cwricwlaidd y Llywodraethwyr, adroddiadau A.E.M. ar yr ysgol, cynlluniau gwaith, meysydd llafur pwnc, yr adroddiad blynyddol i rieni. Mae croeso i rieni gysylltu â'r Pennaeth yn ystod oriau ysgol i drefnu amser cyfleus i weld y dogfennau hyn. Er bod y manylion yn y ddogfen hon yn gywir ar adeg cyhoeddi, ni ddylid rhagdybio na fyddai newid, sy'n effeithio ar y trefniadau perthnasol cyn dechrau neu yn ystod y flwyddyn ysgol. Os bydd unrhyw newidiadau, rhoddir gwybodaeth ynghylch hynny yng nghyfarfod blynyddol Rhieni a Llywodraethwyr.

## 7.4 Cofnodion Disgyblion

Mae'r ysgol yn cadw cofnod o wybodaeth cwricwlaidd ynghylch pob disgybl. Mae gan rieni hawl i weld y wybodaeth hon ynghylch eu plentyn.

**8.**

Bydd ysgolion yn ail-agor i athrawon yn unig ar yr 2il a'r 3ydd o Fedi ac ar ddydd Mercher 4ydd o Fedi i'r plant.

Mae 3 diwrnod hyfforddi arall i'w cymryd gan ysgolion yn ystod 2024-25. Bydd manylion y rhain yn dilyn.

| **Gwyliau** | **Dechrau** | **Diwedd** |
|---|---|---|
| Tymor yr Hydref | 4ydd Medi 2024 | 20fed Rhagfyr 2024 |
| Hanner tymor yr Hydref | 28ain Hydref 2024 | 1af Tachwedd 2024 |
| Gwyliau Nadolig | 23ain Rhagfyr 2024 | 6ed Ionawr 2025 |
| Hanner tymor y Gwanwyn | 24ain Chwefror 2025 | 28ain Chwefror 2025 |
| Gwyliau Pasg | 14eg Ebrill 2025 | 25ain Ebrill 2025 |
| Gwyl y Banc Mis mai (bank holiday) | 5ed Mai 2025 | |
| Hanner tymor yr Haf | 26ain Mai 2025 | 30ain Mai 2025 |
| Gwyliau'r Haf | 21ain Gorffennaf 2025 | 29ain Awst 2025 |

**9.Datganiad Preifatrwydd**

**DATGANIAD PREIFATRWYDD YSGOL SANTES HELEN**

Rydym yn cymryd eich preifatrwydd o ddifri, felly fe'ch anogwn i ddarllen y polisi hwn yn ofalus gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig ynghylch:

- Pwy ydym ni
- Pa wybodaeth ydym yn casglu
- Sut a pham yr ydym yn casglu, yn storio ac yn rhannu gwybodaeth bersonol
- Eich hawliau yng nghyswllt eich gwybodaeth bersonol
- Sut i gysylltu â ni ac awdurdodau goruchwylio os oes gennych gŵyn

**Pwy ydym ni**

Mae **Ysgol Santes Helen** ('ni') yn casglu, defnyddio ac yn gyfrifol am wybodaeth bersonol benodol amdanoch chi fel 'rheolydd data'. Wrth wneud hynny, cawn ein rheoleiddio gan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol sy'n weithredol ledled yr Undeb Ewropeaidd (yn cynnwys y Deyrnas Unedig) ac rydym yn gyfrifol fel 'rheolwr data' am y wybodaeth bersonol honno er dibenion y cyfreithiau hynny.

**Gwybodaeth bersonol am ddisgyblion yr ydym yn ei chasglu a'i defnyddio:**

- Gwybodaeth a chysylltiadau personol i adnabod disgyblion (enw, rhyw, dyddiad geni, cyfeiriad, rhif unigryw disgyblion (UPN), cyfeiriad e-bost, manylion cyswllt mewn argyfwng)
- Nodweddion (ethnigrwydd, cenedligrwydd, iaith y cartref, cymhwysedd prydau ysgol am ddim)
- Taliadau cinio a patrwm prydau y plentyn
- Gwybodaeth diogelu (gorchmynion llys, cyfranogiad personol ac adroddiadau y gwasanaethau cymdeithasol ac amddiffyn plant, gwybodaeth gefndir berthnasol am y teulu)
- Anghenion addysgol arbennig (anghenion a safle yn cynnwys gwybodaeth 'Mwy abl a thalentog')
- Presenoldeb (nifer y sesiynau a fynychwyd, nifer yr absenoldebau a rhesymau dros absenoldeb)
- Meddygol a gweinyddiaeth (gwybodaeth am feddyg, alergeddau, meddyginiaeth a gofynion dietegol)
- Asesiad a chyrhaeddiad (canlyniadau profion statudol ac anstatudol, hanes addysgol, lefelau cyflawniad disgwyliedig, adroddiadau tymhorol a blynyddol)
- Gwybodaeth am ymddygiad (gwaharddiadau ac unrhyw ddarpariaethau sydd wedi'u rhoi yn eu lle)
- Amserlen a'r dosbarthiadau a fynychir (yn cynnwys gwersi offerynnau cerdd)
- Lluniau (yn cynnwys delweddau teledu cylch cyfyng TCC)
- Caniatâd ar gyfer teithiau ysgol a lluniau a gyhoeddir (yn cynnwys enw'r sawl a roddodd y caniatâd a'r dyddiad)
- Manylion y sawl y caniateir iddo / iddi gasglu disgybl o'r ysgol

**Rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am ddisgyblion am y dibenion a ganlyn:**

- I gefnogi addysg y disgybl
- I fonitro ac adrodd ar gynnydd cyrhaeddiad y disgybl
- I ddarparu gofal bugeiliol priodol
- I asesu ansawdd ein gwasanaethau
- I gadw plant yn ddiogel (alergeddau bwyd, manylion cyswllt mewn argyfwng, delweddau TCC)
- I fodloni gofynion statudol ar gyfer defnydd gyda chasgliadau data, archwiliadau statudol a dibenion archwilio

Gallwn ddefnyddio eich gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio. Dyma lle rydym yn gwneud penderfyniad yn awtomatig amdanoch chi heb ymyrraeth dynol.

**Dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnynt i brosesu gwybodaeth am ddisgyblion yw:**

- Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol y mae'r rheolydd data yn destun iddynt
- Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn gwarchod buddion hanfodol testun y data neu unrhyw berson naturiol arall.
- Mae prosesu yn angenrheidiol at ddiben tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu yn sgil dyfodiad awdurdod swyddogol y rheolydd data

**Yn ogystal, yn gysylltiedig ag unrhyw ddata categori arbennig**

- Mae prosesu yn angenrheidiol er dibenion cwblhau'r goblygiadau a defnyddio hawliau penodol sydd gan y rheolydd neu destun y data sy'n darparu ar gyfer mesurau diogelu priodol ar gyfer hawliau sylfaenol a diddordebau testun y data
- Mae prosesu yn angenrheidiol i warchod diddordebau hanfodol testun y data neu berson naturiol arall pan nad oes gallu corfforol neu gyfreithiol gan destun y data i roi caniatâd
- Mae prosesu yn angenrheidiol er dibenion archifo er budd y cyhoedd, ymchwil gwyddonol, ymchwil hanesyddol neu ddibenion ystadegol. Bydd hyn yn gymesur i'r nod yr anelir ato, yn parchu hanfod yr hawl i ddiogelu data a diogelu hawliau sylfaenol a diddordebau testun y data.

**Y rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth am ddisgyblion yw:**

- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 2011
- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Disgyblion) (Cymru) 2011
- Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb) (Cymru) 2011
- Adroddiad Addysg (Adroddiad Pennaeth Rhieni ac Oedolion) (Cymru) 2011
- Deddf Diogelu Data 1998
- Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2012
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysgol (Cymru) 2018
- Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Gorchymyn Rheoliadau (Diogelwch Tân) 2005/ Gorchymyn Diwygio Rheoleiddiol (Diogelwch Tân) 2005 (cwblheir ffurflenni PEEPS ac mae'r rhain yn cynnwys manylion unrhyw anableddau sydd gan blentyn / aelod o staff)

**Casglu Gwybodaeth am Ddisgyblion**

Rydym yn casglu gwybodaeth am ddisgyblion drwy ffurflenni cofrestru wrth i ddisgyblion ddechrau yn yr ysgol ac rydym yn derbyn peth data drwy *Common Transfer File* (CTF) os yw plentyn yn trosglwyddo atom o ysgol arall

Er bod y rhan fwyaf o wybodaeth am ddisgybl yr ydych yn ei darparu i ni yn hanfodol, bydd peth gwybodaeth yn cael ei darparu ar sail wirfoddol

Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data, byddwn yn rhoi gwybod i chi p'un a fydd yn ofynnol i chi ddarparu gwybodaeth benodol i ni am ddisgybl neu os oes gennych ddewis yn hyn. Os darperir gwybodaeth i ni ar sail wirfoddol, byddwn yn gofyn i chi roi caniatâd penodol ac yn rhoi'r opsiwn i chi dynnu'r caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg.

**Storio Data am Ddisgyblion**

Rydym yn cadw data am ddisgyblion yn ddiogel am gyfnodau penodol o amser fel y dangosir yn ein rhestr cyfnodau cadw. Am ragor o wybodaeth am ein cyfnodau cadw, gofynnwch am gopi o'r polisi diogelu data gan y Pennaeth.

**Gyda phwy yr ydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion**

Rydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion yn rheolaidd gyda:

- Ysgolion y mae'r disgybl yn mynd iddynt pan fyddant yn ein gadael ni
- Cyngor Gwynedd, Awdurdod Lleol, Swyddfa Addysg - Cymhorthyddion SIMS, Cwnselydd Ysgol, Swyddog Lles, Gwasanaethau Cymdeithasol, Hamdden, Trafnidiaeth, Cyllid, Derwen, GwE, Tîm ADY a Chynhwysiad
- Estyn
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - nyrs ysgol, deintydd, Camhs
- Yr Heddlu a'r tîm troseddu ieuenctid
- Canolfannau Iaith (pan fo angen)
- Llywodraeth Cymru
- Corff Llywodraethol yr Ysgol (lle sydd yn angenrheidiol)
- Cynnal –drwy SIMS (system rheoli gwybodaeth ysgolion)
- Esgobaeth Wrecsam

**Asiantaethau a gomisiynir gennym i ddarparu gwasanaethau ar ein rhan**

- Llywodraeth Cymru (drwy HwB)
- GwE
- Cynnal
- Capita – SIMS
- SchoolComms
- SchoolGateway
- My Concern
- Teachers2Parents
- Incerts
- FischerFamilyTrust (FFT)
- Antur Waunfawr (gwaredu gwastraff cyfrinachol)
- Edufocus trwy Evolve
- Boxall
- Google Drive
- G-Suite
- PASS
- Tempest

**Cwmnïau perthnasol sy'n hyrwyddo ac yn gweinyddu profiadau dysgu ein disgyblion**

- Llywodraeth Cymru - drwy HwB
- GwE
- Colegau addysg bellach Coleg Menai,
- Prifysgol Bangor
- Plas Menai
- Mathletics
- Seesaw
- Class Dojo
- Urdd Gobaith Cymru
- Google Classroom
- Facebook
- Twitter
- William Mathias

**Pam yr ydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion yn rheolaidd**

Nid ydym yn rhannu gwybodaeth am ein disgyblion gydag unrhyw un heb ganiatâd, oni bai bod y gyfraith a'n polisïau yn caniatáu i ni wneud hynny.
Rydym yn rhannu data am ddisgyblion gyda Llywodraeth Cymru ar sail statudol. Mae rhannu data yn y modd hwn yn tanategu cyllid yr ysgol ac yn monitro cyrhaeddiad addysgol.
Mae'n ofynnol i ni gasglu data dan Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2011 a Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb) (Cymru) 2011.
Mae'n ofynnol i ni rannu gwybodaeth am ein disgyblion gyda'n Hawdurdod Lleol, Cyngor Gwynedd, a Llywodraeth Cymru dan Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2011

**Cais i gael mynediad i'ch data personol**
Dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gan rieni a disgyblion yr hawl i ofyn am fynediad i'r wybodaeth yr ydym yn ei chadw amdanynt. Er mwyn gwneud cais am eich gwybodaeth bersonol, neu ofyn am fynediad i gofnod addysgol eich plentyn, cysylltwch ag un o'r isod:

**Pennaeth**
**Ysgol Santes Helen**
**9 Dwyrain Twthill**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 1PF**

**Swyddog Diogelu Data Ysgolion**
**Cyngor Gwynedd**
**Stryd y Castell**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

**Mae gennych hefyd yr hawl i:**

- Wrthwynebu i ddata personol gael ei brosesu sy'n debygol o achosi, neu sy'n achosi, niwed neu ofid
- Atal unrhyw beth rhag cael ei brosesu er dibenion marchnata uniongyrchol
- Gwrthwynebu penderfyniadau a wneir drwy ddulliau awtomataidd
- Cywiro, Atal, dileu neu ddinistrio data personol anghywir mewn rhai amgylchiadau
- Hawlio iawndal am y niwed a achoswyd o ganlyniad i dorri rheoliadau Diogelu Data

Os oes gennych bryder ynglŷn â'r modd yr ydym yn casglu neu'n defnyddio eich data personol, gofynnwn i chi godi eich pryder gyda ni i ddechrau. Fel arall, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) drwy https://ico.org.uk/concerns

Mae'n bosib y bydd angen i ni ddiweddaru'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn gyfnodol, felly, argymhellwn eich bod yn ailymweld â'r wybodaeth hon o bryd i'w gilydd. Diweddarwyd y fersiwn hwn ddiwethaf ar **12 ed o Awst 2024**

**Cyswllt**
Os hoffech drafod unrhyw beth yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn, cysylltwch ag un o'r isod:

**Pennaeth**
**Ysgol Santes Helen**
**9 Dwyrain Twthill**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 1PF**

**Swyddog Diogelu Data Ysgolion**
**Cyngor Gwynedd**
**Stryd y Castell**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**